

Adroddiad monitro'r
cynllun iaith Gymraeg

ar gyfer y cyfnod rhwng
1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth
2019

Amdanom ni

Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae gennym gofrestr sy'n cynnwys 698,000 o nyrsys a bydwragedd a all ymarfer yn y DU a chymdeithion nyrsio a all ymarfer yn Lloegr.

Mae gofal gwell a mwy diogel i bobl wrth wraidd yr hyn a wnawn, gan helpu'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ein cofrestr i ddarparu gofal o'r safon uchaf.

Rydym yn sicrhau bod gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ofalu am bobl yn ddiogel, ag urddas, arbenigedd, parch a thrugaredd, o'r eiliad y byddant yn camu i mewn i'w swydd gyntaf.

Ni fydd nyrsys, bydwragedd na chymdeithion nyrsio yn rhoi'r gorau i ddysgu ar y diwrnod y byddant yn cymhwyso. Er mwyn hybu diogelwch ac ymddiriedaeth y cyhoedd, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol ddangos drwy gydol eu gyrfaedd eu bod yn ymrwymo i ddysgu a datblygu er mwyn sicrhau bod eu sgiliau'n gyfredol a'u bod yn gwella fel ymarferwyr.

Rydym am annog gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i fod yn agored a dysgu er mwyn gwella gofal a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Ar yr achlysuron pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le ac y bydd pobl yn wynebu risg, gallwn gamu i mewn i ymchwilio i'r mater a chymryd camau gweithredu, gan roi llais i'r cleifion a'r teuluoedd yn y broses.

Rydym wedi ymrwymo i wella'r gwasanaethau y gallwn eu cynnig i siaradwyr Cymraeg.

Ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg

Mae aelodau'r Cyngor, y Tîm Gweithredol a phob cyflogai yn chwarae rhan yn y gwaith o gyflawni ein cynllun iaith Gymraeg:

- Y Cyngor sy'n gyfrifol am bennu ein strategaeth gyffredinol.
- Y tîm Gweithredol sy'n gyfrifol am weithredu ein strategaeth ac am bennu polisiau a chynlluniau busnes mewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun iaith Gymraeg.
- Y Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gyflwyno'r cynllun iaith Gymraeg.
- Y tîm Polisiau a Deddfwriaeth sy'n gyfrifol am fonitro newid deddfwriaethol a'r effaith ar ein gwaith cynllunio busnes mewn perthynas â chydymffurfio â

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

- Y tîm rheoleiddiol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n gyfrifol am ddatblygu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a chefnogi pawb sy'n gyfrifol yn unigol am gamau gweithredu a'n cyflogeion i gydymffurfio â'n cynllun iaith Gymraeg.

Cynnydd y cynllun iaith Gymraeg

Yn unol ag Adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, cyn belled â bod hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Cymeradwywyd ein cynllun iaith Gymraeg gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Ionawr 2011.

Nod yr adroddiad monitro blynyddol hwn yw crynhoi ein cynnydd wrth weithredu ein cynllun iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg. Ceir crynodeb (sy'n seiliedig ar gwestiynau o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg) yn Atodiad 1.

Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig ein bod yn parhau i gydymffurfio â'n cynllun iaith Gymraeg. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn helpu i lywio a datblygu ein dull gweithredu. Yn dilyn cyfarwyddyd gan y Comisiynydd, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar ein gwefan am y tro cyntaf y llynedd. Bydd adroddiad eleni ac adroddiadau blynyddol yn y dyfodol ar gael ar-lein hefyd.

Mae ein hymgysylltiad rheoleiddiol yng Nghymru yn dibynnu ar natur y gwaith o ddatblygu polisi, prosiect neu safonau. Rydym yn sicrhau ein bod yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu ledled y DU ar gyfer rhaglenni newid corfforaethol, gan hysbysu llywodraethau datganoledig lle bo'n briodol. Er enghraifft, pan ddatblygwyd ein safonau bydwragedd ar gyfer y dyfodol, gwnaethom hyrwyddo'r Gymraeg yn y ffyrdd canlynol:

- Roedd y dogfennau a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad (y safonau hyfedredd newydd drafft ar gyfer bydwragedd a safonau drafft ar gyfer rhaglenni bydweigiaeth cyn cofrestru) wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac ar gael ar ein gwefan.
- Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r cwmni ymchwil annibynnol y gwnaethom ei gontractio i gynnal ein harolygon ymgynghori er mwyn i fersiwn Gymraeg o'r arolygon fod ar gael.
- Pan gynhaliwyd gweithdy ymgynghori yng Nghaerdydd, gwnaethom gynnig cyfle i bawb a gofrestrodd ar gyfer y digwyddiad ofyn am gyfieithydd Cymraeg ymlaen llaw (ni wnaeth unrhyw un dderbyn ein cynnig).

- Roedd gan ein hwyluswyr gopiâu Cymraeg o'r safonau newydd drafft ym mhob un o'n gweithdai ymgysylltu (gan gynnwys Caerdydd).

Gwnaethom ddechrau rheoleiddio rôl newydd nyrsys cyswllt yn Lloegr ym mis Ionawr 2019. Drwy gydol y prosiect i ddechrau eu rheoleiddio, rydym wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'n gwaith drwy Brif Swyddog Nyrsio Cymru, ac wedi ystyried unrhyw oblygiadau canlyniadol posibl i Gymru.

Yn y flwyddyn adrodd, gwnaethom hefyd gynnwys ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ein gweithgareddau ymgysylltu â staff mewnol, gan gynnwys y canlynol:

- Trefnu bod siaradwr yn siarad â'r staff am weithio gyda chymunedau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru,
- Cystadleuaeth pobi cacennau ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi gyda chymunedau cysylltiedig sy'n ymwneud â'n Cynllun iaith Gymraeg.

Rydym yn arbennig o falch o fodiwl e-ddysgu newydd sydd ar gael i bob cyflogai, sy'n rhoi cefndir a hanes yr iaith, yn amlgu'r defnydd presennol ac yn pwysleisio dyletswydd gyfreithiol cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau i aelodau'r cyhoedd yn y cyfrwng hwn. Lansiodd hyn ar Ddydd Gŵyl Dewi 2019.

Yn ogystal, fel rhan o'n gwaith o reoleiddio addysg y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth, gwnaethom gynnwys cwestiynau thematig ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein hunanasesiad blynyddol o Sefydliadau Addysg Cymeradwy. Roedd yr arolwg hwn yn cynnwys cwestiwn am faint o fyfyrwyr oedd wedi cael eu haddysgu a'u hasesu mewn ieithoedd heblaw am Saesneg. Ymatebodd un brifysgol fod myfyrwyr yno yn cyflawni rhaglen cyn cofrestru yn Gymraeg. Roedd rhagor o adborth a gafwyd drwy'r arolwg hwn yn cynnwys gwybodaeth am brifysgolion yng Nghymru yn darparu amrywiaeth o lwybrau cymorth er mwyn i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys: cael tiwtor academiaidd sy'n siarad Cymraeg, y gallu i gymryd hyd at 50 y cant o'u rhaglen yn Gymraeg, a chyflwyno asesiadau academiaidd yn Gymraeg. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae Sefydliadau Addysg Cymeradwy yn addysgu ac yn asesu yn Gymraeg.

Safonau'r Gymraeg

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi rhoi adborth manwl i Lywodraeth Cymru ar ei chynigion ar gyfer safonau'r Gymraeg, a fwriadwyd i gymryd lle ein cynllun iaith Gymraeg. Yn ogystal, gwnaethom gysylltu â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill i drafod goblygiadau posibl unrhyw safonau newydd. Fodd bynnag, yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2018 na fyddai'r safonau'n cael eu rhoi ar waith yn eu ffurf arfaethedig.

Felly, mae ein Cynllun iaith Gymraeg yn parhau i fod mewn grym a byddwn yn parhau i gydymffurfio ag ymrwymadau ein cynllun a chyflwyno adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

Gwnaethom gyfarfod â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr eraill yn ddiweddar ac edrychwn ymlaen at weithio gyda nhw i gyflwyno gofynion newydd i reoleiddwyr pan fydd y rhain wedi'u cwblhau. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydraddoldeb y Gymraeg a byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gyrraedd y nod hwn.

Camau allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar y canlynol:

- 1 Codi proffil y Cynllun iaith Gymraeg ym mhob rhan o'r sefydliad er mwyn sicrhau bod cyflogeion yn gwbl ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol a pham, er enghraifft drwy hyrwyddo ein modiwl e-ddysgu newydd gan godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a
- 2 Monitro'r amserlen ar gyfer rhoi unrhyw safonau newydd arfaethedig gan Lywodraeth Cymru ar waith, a gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno'r gofynion newydd.

Atodiad 1: Crynodeb o'r cynllun iaith Gymraeg ar waith ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019

Asesiad o effaith polisiau	Ein gwaith
<p>Nifer a chanran y polisiau (gan gynnwys y rheini a gawsant eu hadolygu neu eu diwygio) lle rhoddyd ystyriaeth i'r effeithiau y byddai'r polisi yn eu cael ar y defnydd o'r Gymraeg.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Safonau rhaglenni addysg a pholisiau cysylltiedig (gan gynnwys Dychwelyd i Ymarfer a Bydwraig yn y Dyfodol) 2. Polisi ffioedd nyrsys cyswllt 3. Polisi ar ddull rheoleiddio nyrsys cyswllt 4. Polisi cofrestru Saesneg 5. Strategaeth Addaswydd i ymarfer 6. Adolygiad ail-ddilysu <p>Mae pob polisi'n cael asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n cynnwys ystyried effaith y polisi ar y defnydd o'r Gymraeg. Caiff cyfieithiadau Cymraeg eu cyhoeddi ynghyd â dogfennau'r safonau Saesneg.</p>
<p>Enghraifft o asesiad lle ystyriwyd bod y polisi yn cael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg a manylion am y ffordd y cafodd y polisi ei ddiwygio o ganlyniad i hynny.</p>	<p>Mae ein rhaglen Addysgu yn cynnwys Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, a Safonau hyfedredd ar gyfer pob proffesiwn.</p> <p>Un o'n cyfresi diweddaraf o safonau sy'n cael ei datblygu yw safonau Bydwraig yn y Dyfodol sy'n cynnwys Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru a Safonau hyfedredd i fydwragedd.</p> <p>Daeth ein hymgyngoriad cyhoeddus ar y safonau drafft hyn i ben yn ddiweddar, ac erbyn hyn rydym yn dechrau ar gam nesaf y gwaith datblygu. Yn y cam hwn, byddwn yn addasu ac yn mireinio'r safonau drafft ar sail yr ymatebion a gawsom yn ystod yr ymgynghoriad. Rydym wedi comisiynu cwmni ymchwil annibynnol i reoli'r gwaith o ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn disgwyl cael eu hadroddiad yng nghanol mis Mehefin. Unwaith y bydd yr adroddiad hwn wedi dod i law, gallwn asesu ymhellach effaith bosibl y safonau newydd hyn ar siaradwyr Cymraeg, gan ystyried a oes unrhyw addasiadau'n ofynnol ar sail yr ymatebion. Caiff y safonau eu cyflwyno i'n Cyngor ym mis Hydref. Os cânt eu cymeradwyo, bydd y safonau'n dod i rym am y tro cyntaf ym mis Medi 2020 a byddant ar waith yn llawn erbyn mis Medi 2021.</p> <p>Fel gyda'n holl waith ar safonau a pholisi, rydym yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynnwys drwy gynnal asesiad o'r</p>

effaith ar gydraddoldeb sy'n ystyried ein goblygiadau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg. Proses barhaus yw'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a chaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd wrth ystyried pob cam o'r gwaith o ddatblygu'r safonau. Mae'r asesiad yn llywio'r gwaith datblygu, gan nodi'r effeithiau (os o gwbl) ar siaradwyr Cymraeg, ac mae'n cynnig camau lliniaru a diwygiadau i gynnwys y safonau os yw hynny'n briodol ac yn gymesur. Hyd yn hyn, nid ydym wedi nodi unrhyw effaith y bydd y safonau drafft yn ei chael ar y gwaith o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg (Cymal 8). Mae ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd yn nodi gweithgareddau busnes cyhoeddus a chynhyrchion lle mae angen am integreiddio'r Gymraeg er mwyn cynnwys siaradwyr Cymraeg (Cymal 1).

Amlinellir isod weithgareddau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) hyd yn hyn, sy'n dangos ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau o dan y Cynllun iaith Gymraeg.

Rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru (Cymal 1) drwy wneud y canlynol:

- Cyfieithwyd ein safonau drafft ar gyfer ymgynghori, yn ogystal ag unrhyw ddogfennau ategol, i'r Gymraeg gan sicrhau eu bod ar gael ochr yn ochr â'r fersiynau Saesneg.
- Darparwyd fersiynau Cymraeg o'r arolygon ymgynghori ochr yn ochr â'r fersiynau Saesneg ar gyfer pob grŵp o ymatebwyr ('Proffesiynol', 'Proffesiynol arall' a 'Cyhoeddus').
- Cynhaliwyd digwyddiad yng Nghymru yn ystod yr ymgynghoriad. Gofynnwyd i bawb a gofrestrodd ar gyfer y digwyddiad hwn a oedd angen cyfieithydd Cymraeg ar y pryd arnynt, ond ni ofynnodd neb am y gwasanaeth hwn.
- Roedd fersiynau Cymraeg o'r holl ddeunyddiau ar gael ochr yn ochr â'r fersiynau Saesneg yn y digwyddiad yng Nghymru. Sicrhawyd hefyd fod deunyddiau Cymraeg ar gael yn ein holl ddigwyddiadau ledled y DU.
- Roedd cyfieithydd Cymraeg ar y pryd ar gael ar gyfer cyfranogwyr ein grwpiau ffocws yng Nghymru, os gofynnwyd amdanont. Ni ofynnodd neb am y gwasanaeth hwn. Roedd fersiynau Cymraeg o'r deunyddiau ar gael i bawb a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws hyn.

Mae'r NMC yn sicrhau bod nyrsys a bydwagedd yn diwallu anghenion y gymuned Gymraeg ri hiaith (Cymal 8) yn ein safonau yn y ffyrdd canlynol:

- Rydym yn sicrhau y caiff ein safonau eu cyhoeddi yn Gymraeg fel eu bod ar gael i'r gymuned Gymraeg.
- Rydym yn hyrwyddo'r Cynllun iaith Gymraeg drwy gynnwys datganiad yn ein safonau drafft ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth a'n [Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru \(fersiwn Gymraeg\)](#) sy'n nodi bod yn *'rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy ynghyd â'u partneriaid dysgu ymarfer sicrhau bod rhaglenni a gyflwynir yng Nghymru yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg'*.
- Yn y fersiwn ddrafft o'n 'Safonau hyfedredd ar gyfer bydwagedd', rydym wedi cynnwys adran benodol yn 'Parth 1' sy'n amlinellu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyfathrebu, rhannu gwybodaeth, meithrin cydberthnasau ac eirioli (1.21.7-1.21.18). Mae'r sgiliau angenrheidiol o fewn y safonau'n cynnwys *"defnyddio iaith glir a deunyddiau ysgrifenedig priodol, gan wneud addasiadau rhesymol lle y bo'n briodol, gan sicrhau bod menywod, a'u partneriaid a'u teuluoedd, yn deall eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, ac iechyd a llesiant eu babi newydd-anedig; dylai hyn gynnwys: cydnabod yr angen i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd a deunyddiau wedi'u cyfieithu a hwyluso hynny"*. Ceir safonau tebyg o ran cyfathrebu a rheoli cydberthnasau yn Atodiad A o'r [Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig \(Fersiwn Gymraeg\)](#).

Bydd yr NMC yn asesu effaith ein safonau ar siaradwyr Cymraeg yn barhaus. Wrth i ni ddechrau ar gam nesaf y gwaith o ddatblygu'r safonau, bydd canlyniadau ein hymgyngoriad yn llywio unrhyw addasiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg.

Cyhoeddiadau	
Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd	2910
Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn	94

Gymraeg	Bydd hyn yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg sy'n nodi bod gwybodaeth ar gyfer cleifion ac aelodau'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Caiff safonau, canllawiau a deunydd technegol neu arbenigol arall ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac nid y cyhoedd yn uniongyrchol eu cyhoeddi yn Saesneg. Fodd bynnag, rydym yn cynnig cyfieithiad Cymraeg ar gais. Yn ogystal â gofynion ein cynllun, rydym yn cyfieithu deunyddiau pan fyddwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, er enghraifft ein dogfennau a deunyddiau ymgynghori ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yng Nghymru.
Cwynion	
Nifer yr holl gwynion a gafwyd am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru	Cafwyd 250 o atgyfeiriadau mewn perthynas â nyrsys a bydwagedd â chyfeiriad cofrestredig yng Nghymru.
Nifer y cwynion a gafwyd yn Gymraeg am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru	Ni chafwyd unrhyw atgyfeiriadau yn Gymraeg yn ystod 2018-19.
Nifer y cwynion a gafwyd yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'i gynllun iaith Gymraeg	Ni chafwyd unrhyw gwynion am roi'r cynllun iaith Gymraeg ar waith yn ystod y cyfnod adrodd yn 2018-19.
Gwefan	
Canran gwefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg	Llai nag un y cant. Mae'r brif wefan yn cynnwys tudalen 'Amdanom ni' yn Gymraeg, y gellir ei gweld drwy glicio ar fotwm 'Cymraeg' yn y bar llywio. Mae'r dudalen hon yn dwyn ynghyd wybodaeth bwysig amdanom ni fel rheoleiddiwr. Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg sy'n nodi bod gwybodaeth ar gyfer cleifion ac aelodau'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Rydym hefyd yn cynnig cyfieithiad Cymraeg ar gais.
Tystiolaeth o unrhyw gynlluniau i wella neu gynyddu'r ddarpariaeth	Byddwn yn parhau i ddarparu ymgynghoriadau a chyhoeddiadau pwysig yn Gymraeg.

Gymraeg ar y wefan	
Mae tystiolaeth am y broses a ddefnyddir i sicrhau bod cynnwys sy'n bodoli eisoes, diweddariadau a chynnwys newydd yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith Gymraeg (os yw'r broses yn wahanol i'r hyn a nodwyd yn 2017-18)	dd/g
Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg	
Gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd yn nefnydd y cyhoedd o'r gwasanaethau o ganlyniad i hynny.	Gweler y wybodaeth uchod mewn perthynas â'n cyhoeddiadau Cymraeg a chyfieithiadau o'n dogfennau ymgynghori a digwyddiadau a gynhelir yng Nghymru.
Gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaethau Cymraeg y sefydliad (e.e. drwy asesu profiad darpar ddefnyddwyr gwasanaeth/defnyddwyr gwasanaeth presennol)	Rydym yn asesu profiad defnyddwyr presennol drwy eu gwahodd i gwblhau ein harolygon adborth cwsmeriaid. Mae'r cwsmeriaid yn sgorio eu bodlonrwydd a chânt gyfle i wneud sylwadau ychwanegol, megis adborth ar gyfathrebu yn Gymraeg. Caiff dadansoddiad meintioliol ac ansoddol o ymatebion eu casglu mewn adolygiadau boddhad cwsmeriaid, sy'n sail i wella profiad ein cwsmeriaid. Yn ogystal, rydym yn defnyddio'r adborth a gawn oymatebion ymgynghori byrddau sy'n cynrychioli siaradwyr Cymraeg er mwyn ystyried ansawdd gwasanaethau ein sefydliad ar gyfer siaradwyr Cymraeg (gweler yr adran uchod am sut rydym yn monitro ymatebion ymgynghori i'r Rhaglen Addysg).
Achosion addasrwydd i ymarfer	
Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yng Nghymru	Gwnaethom gynnal 42 o ddigwyddiadau sylwedd a 70 o ddigwyddiadau nad oeddent yn rhai sylwedd (ystyriwyd 52 o achosion sylwedd a 136 o achosion nad oeddent yn rhai sylwedd

	yn y digwyddiadau hyn).
Nifer y gwrandawiadau lle gwnaed cais gan dyst i siarad yn Gymraeg	Ni chafwyd unrhyw geisiadau gan dyst i siarad yn Gymraeg.
Nifer y gwrandawiadau lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg.	Ni chynhaliwyd unrhyw wrandawiadau lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg.
Hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg	
Nifer a chanran staff newydd y sefydliad (h.y. ers 1 Ebrill 2017) sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.	199 o gyflogeion newydd, sef 71 y can o'r holl gyflogeion.
Nifer a chanran holl weithlu'r sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ers i'r hyfforddiant gael ei gyflwyno.	<p>Lansiwyd modiwl e-ddysgu newydd gennym ar 1 Mawrth 2019 er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae wedi'i anelu at unrhyw un sydd â diddordeb yn hanes y Gymraeg, o ddoe hyd heddiw. Mae naw cyflogai (un y cant) wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn ers iddo gael ei lansio.</p> <p>Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom hefyd gynnal dau weithdy pwrpasol ar asesu'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer cyflogeion polisi, a oedd yn cynnwys asesiad Cymraeg.</p>